

# Gair bach Bethlehem 2021

RHIFYN 26



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 26 Mawrth 14 2021

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

## COLLI DWY WEITHGAR

Trist cofnodi i ni golli dwy o'n plith fu'n amlwg iawn yng ngweithgareddau Bethlehem. O fewn llai na phythefnos i'w gilydd ym mis Chwefror bu farw Elen Lewis a Cath Edwards, dwy ddawnus fu'n cymryd rhan mor amlwg yn ein plith yma ym Methlehem.



Elen Lewis

Yn sicr, pe na bai'r cyfyngiadau COVID ar waith, byddai llu o'u cyd-aelodau am ymuno i dalu'r deyrnged olaf i ddwy fu mor hawddgar a gweithgar. Mae teyrngedau i'r ddwy gan Marian Evans, ar ddwy dudalen nesaf y rhifyn hwn. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r ddau deulu yn eu profedigaeth:



Cath Edwards

*Gareth a David Lewis, dau fab Elen*

*Emyr Edwards, Llandaf, priod Cath, a Seth, Bridie, Áine ac Aran*

## HEFYD YN Y RHIFYN HWN...

- ☀ *Newyddion o'r Ysgol Sul a'r Cwrdd Merched* ☀ *Oedfaon ar-lein* ☀ *Delwyn*
- ☀ *Erthyglau cyffredinol: \* Bwydo Adar \* Hanes Bethlehem \* Ffyrlo \* Cerdded Ci*
- \* Serendippedd \* Wyau Aur \* Murluniau \* Taith Crosville*
- ☀ *Odlau'r Garth*

### Dyddiad Cau

ar gyfer y rhifyn nesaf

Ebrill 14

Ysgrifennwch air neu ddau a'i anfon at Ifan Roberts: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)

# Elen Hefina Lewis



Elen Lewis: Côr Bethlehem,  
Prifwyl Caerdydd 2000

Un o blant Rhosgadfan oedd Elen. Maen nhw'n deud bod yn rhaid i chi fynd i Fôn i weld gogoniant Eryri. Ond rhaid i chi fynd i Rosgadfan i weld Caernarfon, traeth y Foryd ac Ynys Môn.

Ar dyddyn o'r enw Caea Uchaf y magodd Richard ac Alys Jones eu dwy ferch, Elen a Leah. Roedd bywyd chwarelwr o dyddynwr yn galed ond fe roddodd y rhieni fagwraeth gyfoethog i Elen a Leah - yn y gymdeithas, y Capel ac ar yr aelwyd. Hoffter ei thad o farddoniaeth feithrinodd gariad Elen at iaith.

Fe aeth Elen i'r ysgol fach leol, yna i Ysgol Ramadeg Caernarfon a chafodd gynnig lle yn y Brifysgol. Ond athrawes ysgol gynradd oedd hi am fod a dewisodd fynd i'r Coleg Normal ym Mangor.

Tra'n treulio dwy flynedd yno mi gwrrdodd hi â John Lewis o'r Tymbl – chwaraewr rygbi a thenis, athletwr a chricedwr, oedd newydd ddod o'r fyddin. Aeth John i Lundain i ddysgu, ac er fod Elen wedi treulio blwyddyn yn Birmingham, yn y man fe ddilynodd John i Lundain a chael swydd mewn ysgol gynradd enfawr yn Leighton. Yna symudodd i ddysgu Mathemateg mewn Ysgol Uwchradd – arwydd o'i dawn i addasu ei sgiliau a bod yn hyblyg yn ei gyrfa. Yn Llundain y priododd hi a John ac yno ganed eu dau fab, Gareth a David. Yna cafodd John swydd yn Cheltenham cyn symud yn ôl i Radur yn 1975 – ac yno gwnaethon ni gwrrdd, gan ein bod yn byw ar yr un stryd.

Bu mewn swyddi yn Ysgol Bryntaf ac Ysgol Gyfun Radur ac yn ei thro yn cynnal gwersi preifat, oedd yn aml iawn ymhell dros yr hanner awr oedd ar eu cyfer. Fe gefais i'r fraint o'i chael yn athrawes lanw yn fy ysgol i. Gallai droi ei llaw at addysgu unrhyw oedran o 3 i 11 ac fe barhaodd hynny hyd yn oed ar ôl oedran ymddeol! Roedd gan Elen lawer iawn o ddiddordebau, mewn gwahanol gymdeithasau – Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, Cymdeithas Gerdd Radur, Y Cylch Cinio, Probus a Gwersi Eidaleg. Ac wrth gwrs, roedd Capel Bethlehem a'r Cwrdd Merched yn annwyl iawn iddi.

Roedd hi'n hoff o berfformio ac yn paratoi'n fanwl ond byth yn hyderus os oedd pethau'n ddigon da. "Oedd hwnna'n iawn?" oedd ei chwestiwn.

Roedd hefyd yn gogyddes dda ac yn arbrofi cryn dipyn. Ac roedd hi'n dwli ar ddillad! Deuai galwad wrth ein drws cefn - "Cooeee, Marian!" – lle roedd hi'n sefyll mewn gwisg newydd, gyda'r esgidiau a'r mwclis i fatsio! "Beth ti'n feddwl?"

Ymhen rhai wythnosau, byddwn yn holi am y rig-owt – roedd wedi ei dychwelyd i'r siop!

Fel teulu, fe gawson nhw lawer i haf pleserus yn eu carafán, naill ai'n Ffrainc neu Drefdraeth ac yn ddiweddarach bu ar sawl gwyliau gyda Gareth yn Sbaen a Lanzarote. Roedd ei hwythnos yn llawn rhwng sawl coffi, dysgu Cymraeg yn y dre, cerdded a siopa dillad.

Ond bu i gyfnod y pandemig herio llawer ar ei hysbryd. Byddai'n parhau i alw yn ein drws cefn ac adrodd am ei nosweithiau di-gwsg ac yna'r sirioli gan ddweud, "Tyrd Elen fach, cwyd dy ysbryd!"

Roedd ei bywyd yn amrywiol a lliwgar fel cwilt – darnau bach wedi eu rhoi at ei gilydd i greu cyfanwaith diddorol.

Diolch am gael ei hadnabod.

*Marian Evans*

# Cath Edwards



Cath Edwards – yn nghynhyrchiad 'Yr Hen Anian' (R G Berry) ym Methlehem 1995

## *Er Cof*

Hi'n hylaw yn ei hwyliau – yn arlwy,  
yn eirlys o flodau,  
yn heulwen i'n hualau,  
y dur fu rhyngom ein dau.

*(Emyr Edwards)*

Pe bawn i'n gofyn i chi pa enwogion/sêr sy'n dod o Bort Talbot a'r cyffiniau, mi fasa rhai ohonoch chi'n enwi Richard Burton, Michael Sheen, Anthony Hopkins a hyd yn oed Banksy. I ni, Cath oedd y seren o'r ardal honno, wedi ei geni ar aelwyd Gymraeg yng Nghwmafan, yn unig ferch, ond byth yn ferch unig.

Er iddi adael y cwm, un o ferched Cwmafan, yn ddi-ddadl, oedd hi. Yn wythnosol, ar Sadyrnau, byddai'n ymweld â holl ganghennau'r teulu – ac roedden nhw'n deulu mawr.

Daeth galar i'w bywyd yn ifanc. Collodd Cath ei Mam yn 13 oed, ac fel teulu clos, daeth Aunty Vi i'r adwy i helpu i'w magu. I Cath, Aunty Vi oedd ei "Mam Wen".

Dechreuodd ei gyrfa addysgol yn yr ysgol fach leol, ac yna i addysg uwchradd lawr ym Mhort Talbot. Pan ddaeth hi'n amser Lefel A, astudiodd Cath y Gymraeg, iaith gyntaf, trwy gyfrwng y Saesneg. Felly yn ei thraethodau dyfynnai yn y Gymraeg a thrafod yn Saesneg! Doedd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ddim ar gael yr adeg honno.

Ymlaen yr aeth i Goleg Y Barri i ddilyn ei dyhead o fod y athrawes. Yno cyfarfu a Norah Isaac – arian byw ym myd addysg a ddylanwadodd yn fawr ar Cath. Daeth allan o'r coleg ar dân dros yr iaith a thros roi'r addysg orau i blant.

Cyfarfu hi ag Emyr gyntaf mewn arosfan bysiau yng Nghroes Cwrlwys, ac er iddyn nhw fynd i gyfeiriadau gwahanol, o fewn tair blynedd roedden nhw'n priodi ar ddydd Gŵyl San Steffan ac yn byw yn Y Barri. Yno y ganwyd Seth.

Cyn hir roedd hi'n ysbrydoli myfyrwyr yn ei hen goleg yn y Barri. Daeth sôn cyn hir fod Coleg Y Barri yn mynd i gau, felly trodd golygon Cath i fynd yn ôl i'r ysgol ac i arwain tîm o athrawon fel Prifathrawes. Gwnaeth gais am brifathrawiaeth yn Y Rhondda – i ysgol nad oedd yn un cyfrwng Cymraeg. Doedd hi ddim yn meddwl am eiliad y cai'r swydd – roedd gwleidyddiaeth yn rhan bwysig o benodi yn y cymoedd. Bryd hynny cynhelid y cyfweliadau yn Neuadd y Sir Caerdydd, yn aml ar fore gemau rygbi rhyngwladol. Aeth Cath i "ffau'r Llewod" – ystafell llawn cynghorwyr na wydden nhw fawr am addysg nac arweinyddiaeth ysgol. Sylwodd Cath fod un hyd yn oed yn darllen y Western Mail. Oeddod hithau ynghanol ei hateb a gofyn

"Esgusodwch fi. Fyddai ots gennyh chi roi'r papur yna i lawr a gwrando ar hyn sydd gen i i'w ddweud?"

Ni chafodd y swydd honno!

Roedd addysg Gymraeg ar gynnydd ac roedd ysgol Gymraeg yn agor yng nghanol Rhondda Fawr – cau ysgolion Saesneg ac agor rhai Cymraeg. Roedd yr adeilad ar gyfer yr Ysgol Gymraeg yn hen ac angen gwaith arno. Ond gydag ychydig o blant ar y diwrnod cyntaf, agorwyd Ysgol Gymraeg Bodringallt gyda Cath yn Brifathrawes. Doedd yno fawr o offer, ond ymatebodd rhieni'r Rhondda ac o fewn dyddiau roedd yno sofffa newydd, byrddau, cadeiriau, papur a phensiliau. Neb yn holi o ble! Tyfodd yr ysgol a thyfodd parch y rhieni tuag ati.

Symudodd Cath i Ysgol Castellau ac yna daeth yn Ymgynghorydd. Roedd hi bellach yn ysbrydoli Penaethiaid ysgolion i symud ymlaen. Roedd yn cario athroniaeth Norah Isaac o hyd.

Dw i'n cofio'n dda sut y disgrifiodd y ffordd aeth at i ysbrydoli plant ym myd Llenyddiaeth. Daeth i'r ysgol un bore a bocs hyfryd a rhuban o'i gwmpas. Dwedodd wrth y plant ei bod wedi prynu anrheg iddyn nhw, fyddai'n agor drws newydd iddyn nhw. Byddai'r plant yma yn troi yn awduron erbyn diwedd yr wythnos. Eglurodd y broliant a'r meingefn a'u cymell i greu llyfr i fynd i'r dosbarthiadau iau. Bu'r plant yn fwrlwm drwy'r wythnos yn creu, a chael y fraint o fynd i lawr at y Babanod a chyflwyno eu cynnyrch i'r rhai bach!

Bu Cath yn "guru" i mi. Roeddwn wastad yn gofyn ei barn ac os oeddwn yn cloffi cyn ceisio am swydd, byddai'n holi a fyddwn i, drannoeth wedi'r dyddiad cau, yn difaru.

Tu allan i fywyd addysg, bu Cath yn gefn mawr i Emyr a Seth. Cychwynnwyd Cwmni Drama'r Urdd a'r teulu yn treulio eu gwyliau Pasg i gyd yn hyfforddi yn Llangrannog am yr wythnos gyntaf, ac yn teithio Cymru yn yr ail wythnos yn perfformio.

Pan symudon nhw i fyw i Radyr, daethon ni fel teulu i'w nabod, ac Emyr yn cychwyn cwmni Drama – Cwmni'r Gadwyn. Roedd Cath, ynghyd a John a fi yn aelodau o'r criw. Ni'n dau'n cael trafferth i gofio'n llinellau a Cath yn cofio'r cyfan ymhell o'n blaenau. Mewn un golygfa, lle roedd dau oedrannus yn ymgomio ar fainc, iddi dynnu ei dannedd doddi!

Dau o'r bobl pwysicaf yn ei bywyd oedd Áine ac Aran. Roedd pob dydd Sadwrn yn sanctaidd, wedi i deulu Cwmafon fynd yn llai a llai – diwrnod cael y plant am y dydd. Áine wedi dewis ei galw'n "Myng" a phob hyn a hyn yn mynnu bod y ddwy'n clirio dipyn ar gwpwrdd dillad ei Mamgu.

Daeth Aran yn dipyn o gonsuriwr – ac Emyr a Cath oedd ei gynulleidfa gyntaf pan oedd tric newydd ar waith. Mi dreuliodd Emyr a hi oriau yn eu diddanu a'u caru

Pan symudon Cath ac Emyr i Radur, daeth Cath yn aelod o Gapel Bethlehem. Roedd hi yna bob Sul yn y cornel dde wrth i chi fynd i mewn, yn rhannu ei mints! Yn ysgrifenyddes y Cwrdd Merched, rhoi gair o brofiad, darllen emyn neu ddarn o farddoniaeth i gyd gyda graen a'i llais yn gadarn heb fod yn ymwithiol

Mi fydd y rhan fwyaf o aelodau Bethlehem yn cofio ei dylanwad ar Áine ac Aran. Dysgodd adnodau, diarhebion a dywediadau lu, ac roedd pawb yn edrych ymlaen i glywed y "perlau" yn wythnosol.

Bu Cath trwy'r felin pan gafodd drawiad anferth ar ei chalon. Mi frwydrodd i wella. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, trawyd hi â chancr – dioddefodd lawdriniaeth, cemotherapi a radiotherapi – ac ymestyn 20 mlynedd ar ei hoes.

I mi yn bersonol ac i lawer, roedd Cath yn seren wib. Gwir i'r seren honno golli ychydig ar ei thanbeidrwydd wrth i'r golwg a'r cof ddechrau pallu, ond erys ei hôl drwy ei chysegriad i'w theulu, fu'r un mor gefnogol iddi hithau mewn dyddiau blin, ei theyrngarwch i blant Cymru ac i'w ffydd ddiamwys.

Maen nhw'n deud fod seren wib yn dod â lwc dda ac egni cadarnhaol i ni i gyd. Mi wnaeth Cath hynny. Braint oedd ei hadnabod

*Marian Evans*

## **Yr Oedfaon hyd y Sulgwyn**

*(i gyd ar-lein – oni bai daw newid ar bethau)*

<b>Mawrth 14 –</b>	<i>Y Parchedig Aled Edwards</i>
<b>Mawrth 21 –</b>	<i>Arwel Ellis Owen</i>
<b>Mawrth 28 –</b>	<i>Y Parchedig Robert O. Griffiths</i>
<b>Ebrill 4 –</b>	<i>Delwyn Sion (Cymun - Sul y Pasg)</i>
<b>Ebrill 11 –</b>	<i>Wynford Ellis Owen</i>
<b>Ebrill 18 –</b>	<i>Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans</i>
<b>Ebrill 25 –</b>	<i>Emlyn Davies</i>
<b>Mai 2 –</b>	<i>Delwyn Sion</i>
<b>Mai 9 –</b>	<i>Gwasanaeth Cymorth Cristnogol (Heulwen)</i>
<b>Mai 16 –</b>	<i>Y Parchedig Dafydd Andrew Jones</i>

“My life has been a tapestry of rich and royal hue.” Dyna eiriau Carole King ar ddechrau’i chan "Tapestry". King, brenhines y gân yn y 70au. A pham ydw i’n sôn amdani? Wel, hi oedd f’athrawes biano a chyfansoddi. Smo hi’n gwbod 'ny wrth reswm achos smo ni erioed wedi cwrdd, ond fe gafodd y fenyw dalentog hon ddylanwad aruthrol arna’i, fel cafodd Mrs. Hatton a Miss Lewis yn yr Ysgol Gynradd, a Lili Richards a Mrs Bradley yn Rhydfelen, a lluo o fenywod eraill, heb anghofio’r un a gafodd y dylanwad mwyaf - fy mam.

Nawr, digwydd bod, dwi’n sgrifennu’r ychydig eiriau hyn ar Ddydd Rhyngwladol y Fenyw, ac o’n i’n teimlo bod y menywod yn fy mywyd yn haeddu “mensch” a diolch, a dwi’n siŵr bod 'na lawer ohonoch chi yn teimlo’r un fath.

Fel cenedl ry’ ni wedi rhoi eitha’ bri ar ein menywod erio’ d, (mwy nag ambell i genedl gyfagos mae’n debyg!) o Rhiannon y Mabinogi i’r dywysoges Gwenllian, i Catrin o Ferain i Ann Griffiths (Brenhines yr Emyn), i Kate Roberts (Brenhines ein Llen) hyd at Ruth Jones (Brenhines ein Chwerthin.)

Ond mae 'na lu o rai eraill sy’ ddim yn cael y sylw ma’ nhw’n haeddu - Esme Kirby, Rose Crawshay, Sarah Jane Rees, Lucy Thomas y Glo a Millicent Hughes Mackenzie (Gwglwch nhw wrth eich pwysau!) Menywod na chafodd y sylw ddyledus yn hen wlad fy “Nhadau”. Ond, ma’ pethe’n newid, ac ma’ hawliau merched a chydarddoldeb llawn i fenywod yn dod yn fwy-fwy cyffredin, diolch byth, a dyna pam bydd 'na gerflun; nid o bennaeth planhigfa caethwasiaeth, yn cael ei godi y tu fas i’r orsaf rheilffordd yng nghanol y Brifddinas, ond cerflun o’r brifathrawes ddu gynta’ Nghymru, Betty Campbell. Y ferch o dre’ Bute a wynebodd y rhagfarnau arferol - “neith menyw fel ti byth gyrraedd i unman!” a gwaeth mae’n siŵr! Ond, fe gyrhaeddodd, ac fe ddylanwadodd er lles ei chymuned a’i rhywogaeth.

Felly, ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Fenyw, dathlwn fenywod hen wlad ein mamau, y rhai sy’n arbennig ac enwog, a’r rhai sy’n arbennig i ni, a ma’ hynny siŵr o fod yn cynnwys dwy o chwiorydd Bethlehem sy’ wedi’n gadael yn ystod y mis diwetha’, Elen Lewis a Cath Edwards. Dwy a ddylanwadodd ar deulu a chapel, a dwy ry’n ni’n eu gwerthfawrogi. Diolch amdanynt.

*Delwyn*



Mae ein 'paparazzi' lleol yn sylwi ar bopeth! Megis y newid fu adeg Gŵyl Ddewi ar y llwybr tua copa'r Garth.

## GWEDDI AR GYFER Y PASG


*Gweddi ar gyfer y Pasg wedi'i pharatoi gan **Cynnal**, y gwasanaeth cwnsela sy'n cael ei gynnig i Weinidogion, Clerigwyr, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd ledled Cymru. Y Tad Mark Owen, offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru, sydd wedi cyfansoddi'r weddi eleni.*

Edrychwch ar heddiw!  
Oherwydd bywyd ydyw, bywyd creiddiol bywyd.  
Ar ei lwybr byr  
Y mae holl wirioneddau a realiti dy fodolaeth:  
Gwynfyd twf;  
Gogoniant gweithred;  
Ysblander camp;  
Oherwydd nid yw ddoe ond breuddwyd,  
Ac yfory'n ddim ond gweledigaeth,  
Ond heddiw, mae byw bywyd da yn gwneud pob ddoe  
yn freuddwyd hapus, a phob yfory'n weledigaeth obeithiol.

Dduw yr Addewid, a Duw Gobaith,  
sydd trwy dy drugaredd mawr  
wedi ein geni o'r newydd  
trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist,  
molwn dy enw rhyfeddol!  
Dduw Gogoniant a Duw Cadernid,  
sydd trwy dy rym mawr  
wedi rhoi inni gryfder newydd  
i ddioddef popeth trwy ffydd yn Iesu'r Atgyfodiad.  
Dal y rhai sy'n gaeth ac sy'n dioddef gyda iechyd meddwl,  
a phawb sy'n teimlo pwysau'r byd daearol hwn,  
a'r rhai sy'n eu gwasanaethu trwy air a gweithred,  
yn agos at dy galon sanctaidd.  
Oherwydd rydyn ni'n moli dy enw rhyfeddol ac yn diolch.

## Lliwiau'r Garth

(i lanw'r tudalennau!) -



**Mae'n syndod fel gall y graig sydd uwchben ein Tŷ Cwrdd newid o awr i awr ac o ddydd i ddydd!**

## Dydd Sul 21 Chwefror



Dechreuodd Eysyllt bore 'ma drwy ofyn i'r plant pa un oedd eu hoff lenwad crempog (pancos/ffroes/cramoth). Aeth ymlaen i sôn am y Grawys a'r cyfnod o 40 diwrnod cyn y Pasg, ac yr oedd y plant yn cofio am y 40 niwrnod roedd Noa a'i deulu wedi treulio yn yr arch a'r 40 diwrnod buodd yr Iesu yn yr anialwch.



Anogodd y plant i greu nod llyfr – un llinell i bob un o'r 40 niwrnod – ac i gofnodi rhywbeth bob dydd tan y Pasg. Awgrymodd eu bod yn cymryd munud fach i feddwl bob dydd: i ddiolch, cofio am bobl llai ffodus, neu i wneud sylw o'r byd o'n cwmpas, a nodi eu sylwadau a'u teimladau ar y nod llyfr. Gobeithio dangos rhain yn Gair Bach ar ôl y Pasg.

## Dydd Sul 28 Chwefror

Gwasanaeth Gŵyl Ddewi plant a phobl ifanc Bethlehem.

*(Mae lluniau pawb fu'n rhan o'r oedfa ar dudalen yr oedfaon ar-lein)*

## Dydd Sul 7 Mawrth



Dywedodd Dewi Sant wrthym am 'wneud y pethau bychain' ac yn ei gwrs bore 'ma, gofynnodd Marged i'r plant sylwi ar y creaduriaid bychain sydd o'n cwmpas. Dangosodd luniau o nifer o drychfilod – y rhan fwyaf ohonynt i'w gweld yn ein gerddi – ac, wrth gwrs, roedd y plant yn eu hadnabod nhw i gyd.

Dangosodd Marged a Wil i ni siwd i greu gwesty i drychfilod i'w rhoi yn yr ardd drwy gasglu brigau, mwsogl, conau pîn, gwair sych ac ati a'u rhoi i mewn i ganol hen botel blastig. Anogodd y plant i greu un ei hunain, tynnu llun ohono i ni gyd cael ei weld, a'i adael yn yr

ardd er mwyn darganfod faint o drychfilod fyddai'n dod i fyw ynddo.

Atgoffodd Delwyn bawb bod pob creadur yn bwysig yng ngolwg Duw a'i fod yn ddyletswydd arnom i ofalu ar ôl ein gilydd a'n hamgylchedd. Cawsom hanes Marged arall ganddo, sef Marged Siôn. Pan oedd hi'n fach roedd hi wrth ei bodd â moch y coed, ac i'r graddau ei bod wedi mynd a dau fochyn y coed mewn bocsys matshys gyda hi i Ffrainc ar ei gwyliau un tro!



**Mae croeso i bawb alw mewn yn yr Ysgol Sul ar Zoom.**

I ymuno ewch i <https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09> neu mewnbynwch 714 6634 3537 ac yna'r cyfrinair: Bethlehem. Cofiwch roi gwybod i Heulwen yn gyntaf: [heulwen@btinternet.com](mailto:heulwen@btinternet.com) neu 07779 360614



Mae'r Cwrdd Merched wedi ymuno â'r oes dechnolegol. Ein cyfarfod cyntaf ar Zoom! Daethon ni at ein gilydd yn rhithiol ddydd Mawrth Ynyd. Gobeithio bod pawb wedi cofio gwneud crempog wedi'r holl gyffro. Roedd yn gyfle gwych i gael gweld ein gilydd a chael clonc.

Diolch i Heulwen am drefnu ochr dechnolegol pethe ac i Eirlys am lywio'r cyfarfod yn ei ffordd ddihafal ei hun gan estyn croeso i bawb. Cofiwyd am Elen Lewis a Marian Jones, dwy aelod ffyddlon o'r gymdeithas y gwelwn golled fawr ar eu hôl. (Ac ers ein cyfarfod mae un arall o selogion a chyn swyddog y Cwrdd Merched, Cath Edwards, wedi ein gadael – bydd bwllch mawr ar ei hôl hithau)

Carol agorodd y cyfarfod gyda darlleniad priodol o waith Dafydd Rowlands sef 'A Hithau'n Fawrth'.

Cyfarfod hollol anffurfiol oedd hwn lle cafodd pawb gyfle i ddweud eu hanes yn ystod y cyfnod clo. Pawb wedi bod yn cerdded dipyn bob dydd ond Ann Lewis wedi cerdded 10,000 o gamau bob dydd, pellter sy'n gyfystyr â hyd arfordir Seland Newydd! Pawb wedi bod yn darllen, coginio, glanhau'r tŷ yn drylwyr, cysylltu â'u teuluoedd ar y we a gwarchod wyrion ond roedd rhai wedi bod yn fwy anturus - wedi ymuno â chysiau ar y we a mynd ati i ddysgu iaith dramor. Rhian Huws wedi penderfynu chwarae pob emyn dôn yn Caneuon Ffydd (a lwyddaist ti Rhian?) a rhoi trefn ar hen ffeiliau Dafydd, oedd yn sicr yn brofiad emosiynol iddi. Difyr oedd clywed am hanes dyddiadur tad Eirlys Lamb a dwi'n siŵr iddi hi a'i chwaer gael modd i fyw yn ei ddarllen.

Roedd hwn yn gyfnod trist i rai, Eirlys Cerith wedi colli ei chyfnither Gaenor Hall a siaradodd Catrin Llwyd yn annwyl amdani. Ond i eraill yn gyfnod hapus a llawen, Marian wedi dod yn nain am yr eildro o fewn chwe mis – y tro hwn i Dyfan Llwyd ar Chwefror 1<sup>af</sup> - a hi a Mair wedi dod yn neiniau i Megan chwe mis ynghynt, tra bod un arall o'n haelodau yn eiddgar ddisgwyl ei chweched ŵyr neu wyres (Mae'r llinach yn ehangu, Gwyneth!).

Byddwn i wrth fy modd yn darllen llyfr bach coch Rhiannon Evans am ei hanes ac efallai gallwn ni ei pherswadio i'w ddarllen mewn cyfarfod yn y dyfodol. Dw i'n siŵr ei fod yn drysor o gofnod.

Mae croeso i bawb ymuno â ni - nid yw'n gyfyngedig i ferched. Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd yn rhithiol unwaith eto am 1.30 o'r gloch ar Fawrth 16. (Daw linc ar eich e-bost cyn hynny!)

**Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn**

**BETH AM AIR GENNYCH CHI YN Y RHIFYN NESAF!**

Dyddiad cau – Ebril 14 - [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)

# Mis arall o oedfaon ar-lein

.....ac yn parhau i fod ar gael ar YouTube

**Chwefror 14 –**

[https://youtu.be/JioZV3E\\_O8E](https://youtu.be/JioZV3E_O8E)



**Mawrth 14**

<https://youtu.be/ufp73jSmVOg>



**Mawrth 7 – Cymun -**


[https://youtu.be/W\\_UYxzilp4Y](https://youtu.be/W_UYxzilp4Y)



**Chwefror 28 – Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ysgol Sul -** <https://youtu.be/avJqFQltpTI>



**Chwefror 21 -** <https://youtu.be/AI931CQZWEk>



Rhaid i fi gyfaddef - doedd gen i ddim bwriad prynu y "Porthwr Adar". Cyd-ddigwyddiad llwyr. Roeddwn i'n ymweld ag un o siopau Tesco mwyaf Caerdydd ac wedi bod yn aros am amser hir, hir mewn ciw oedd yn ymestyn ymhell, bell o'r tiliau talu. Fe ffeindiais fy hun yn gwthio fy nhroli fesul modfedd, fel malwen, ar hyd adran y "Bwydydd Anifeiliaid Anwes". Gan nad oes anifail anwes wedi bod yn agos i'n tŷ ni ers marwolaeth drasig "Jacob" y pysgodyn aur nôl tua 1999, dydw i erioed wedi talu fawr o sylw i gynnwys sillfoedd yr adran "Bwydydd Anifeiliaid Anwes" - ond yno, y bore hwnnw, fe darodd fy llygad ar y "Tesco Special Offer - Garden Bird Feeder". £3.99! Ffawd!

Doedd dim byd yn arbennig o drawiadol am y Porthwr hwn. Tiwbyn plastig clir, a hwnnw yn llawn cymysgedd o hadau a chnau a danteithion eraill fyddai'n llenwi boliau adar bach. Roedd cwpan bach bob ochor, i'r 'deryn gael sefyll arno a tharo'i big yn y cafn bwydo bas, a bachyn ar y top i hongian y Porthwr ar gangen addas. Wn i ddim, cweit, beth ddaeth drosta i ond, ar amrantiad, roedd y Porthwr yn y troli - a byd newydd fel "ornitholegydd" wedi agor o'm blaen. A'r cyfan am £3.99! Bargen!

A'r fath amseru. Fe ddes i ddeall mai'r penwythnos hwnnw oedd penwythnos "Gwyllo Adar yr Ardd" yr RSPB ac mai Chwefror, fel y dysgodd plant yr Ysgol Sul, yw'r mis oer, di-gysur pan fydd mawr angen bwydo adar bach. Er gwaethaf anghrediniaeth aelodau'r teulu, a dirmyg a gwawd o gyfeiriad rhai cyfeillion, fe es ati, ar ôl gosod y Porthwr ar gangen nid nepell o ffenest y gegin, i gyfri faint o gyfeillion pluog fyddai'n manteisio ar "Eat Out to Help Out" y porthwr...

Dim un!

A bod yn onest, doeddwn i ddim wedi disgwyl gweld parot, nag albatros nag eryr yn galw heibio ond fe fyddai wedi bod yn braf gweld rhyw arwydd bach fod y gair ar led am y wledd oedd wedi'i darparu, yn rhad ac am ddim, yn un o erddi Butleigh Avenue. "Falle fod gormod o gathod o gwmpas." "Fe fydd yn rhaid i ti aros am sbel i'r adar ddod yn gyfarwydd â'r lle". "Siawns, erbyn gwanwyn nesaf..."

Rôl wythnos o sylu'n unig trwy'r ffenest ar ardd wag, a Phorthwr llawn, roeddwn i am roi'r ffidil yn y to, ac ymddeol o'm gyrfa fer fel ornitholegydd, pan ddaeth



plu eira i ddawnsio'n annisgwyl trwy'r ardd. Roedd fel golygfa gan Disney ac, yn goron ar y cyfan, ymddangosodd Robin Goch o rhywle i lenwi'i fol ar y Porthwr. O'r fath gmysgedd o ryddhad, cyffro a llawenydd! Ymhen rhai dyddiau roedd y

gair ar led ymhlith adar bach yr ardal fod gwledd i'w chael (siawns fod y Robin wedi Trydar) a bellach fe fydda i'n mwynhau ymweliadau dyddiol gan griwiau bywiog o Adar y To, ac ambell Ditw Tomos Las, sydd fel petaent yn hapus i eistedd yn amyneddgar yng nghanghennau'r goeden nes y daw eu tro i lanio ar y Porthwr a phigo'n brysur yn y cwpan bwydo. "Oni werthir dau aderyn y to am geiniog?" hola Efengyl Mathew. Wel, rydw i'n cael cwmni degau ohonynt nhw am £3.99. Dydw i ddim yn honni fy mod yn "lolo Williams", a'r gwir yw fod yr adar wedi hen ddiflannu erbyn i fi ffeindio tudalen "Identify a Bird" ar wefan yr RSPB, ond dwi bellach yn adnabod Aderyn Y To yn syth ac fe fydda i'n barod erbyn i ymwelydd mwy annisgwyl, fel parot, albatros neu eryr ddigwydd taro heibio.

Erbyn meddwl - yr hyn sydd yn fy nghyffroi fwyaf am ymweliadau fy ffrindiau pluog yw'r ffaith nad oes gen i ddim rheolaeth drostynt. Fe fyddan nhw'n ymddangos yn hollol ddi-rybudd, di-batrwm. Bydd rhyw symudiad bychan yn dal fy llygad, rhyw drydar bach cyffrous yn taro fy nghlust a dyna nhw yno - yn perfformio eu dawns fwydo fywiog o'm blaen. Yna fe fyddan nhw'n fflîo i ffwrdd eto, ar amrantiad, fel petaent yn dilyn rhyw gyfarwyddyd cudd sydd ymhell tu hwnt i'm deall i. Fedra i ddim trefnu pryd y byddant yn ymddangos, am ba mor hir y byddan nhw yma, na phryd y byddant yn gadael eto - a dyna pam, dwi'n meddwl, fy mod yn mwynhau a gwerthfawrogi pob munud yn eu cwmni cyfriniol.

Mae'r Porthwr bron yn wag erbyn hyn. Rhaid mentro i Tesco unwaith yn rhagor i siopa, ac i ymweld ag adran anghyfarwydd y "Bwydydd Anifeiliaid Anwes", i gasglu rhagor o hadau a chnau. Dyna ladd dau 'dderyn ag un garreg, fel petai. Rydw i'n "borthwr" bellach - ac rwy'n cym'ryd fy nghyfrifoldeb newydd o ddfri'.





Yn gyntaf, pwt o rag-hysbyseb am agor y capel newydd –

**O'r "Yst a'r Dydd" 30 Mai 1873**

**"Bethlehem, Pentyrch"**

*Cynhelir cyfarfodydd mewn cysylltiad ag agoriad y capel uchod, dydd Sul a dydd Llun Sulgwyn, Mehefin 1af a'r 2il. Y cyfarfodydd i ddechrau am 10, 2, a 6 o'r gloch, pryd y disgwyllir amryw o weinidogion enwog."*

\*\*\*

Wn i ddim os ydi'r cofnod canlynol yn rhoi rhagflas o ddechrau'r Gymanfa Ganu ym Methlehem, er, fel sy'n hysbys, yn 1889 y cynhaliwyd y Gymanfa Ganu gyntaf dan nawdd Bethlehem a'r eglwys cyfagos, ac a fu mewn bri am dros ganrif wedi hynny.



**O'r "Yst a'r Dydd" 17 Hydref 1873 - "Undeb Canu Cynulleidfaol Cwmtaf, Pentyrch a Llantrisant"**

*Nos Lun diwethaf cynhaliwyd y cyfarfod uchod.*

*Ymgasglodd gwahanol Ysgolion Annibynnol y cylch ynghyd yng Nghapel yr Efail Isaf.*

*Canwyd 8 o donnau o Lyfr Tonau Stephen a Jones, o dan arweiniad y Parch. W. Nicholson, Groes-wen, yr hwn a ddangosodd fedr a gallu mawr wrth roi darluniad o'r emynau a'r tonau, ac fel arweinydd.*

*Da iawn gennym ei weled yn dechrau datblygu ei hun fel cerddor.*

*Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf, yr oedd o nodwedd neilltuol iawn – y gynulleidfa oll yn cael eu gwefreiddio gan sŵn yr holl ysgolion yn canu gyda'u gilydd.*

*Cafwyd anerchiadau buddiol a phwrpasol iawn gan y Parchn. W.C. Davies, Soar, Llantrisant; J Griffiths, Glantaf; D Griffiths, Bethel, Llantrisant ac eraill.*

*Drwg gennym fod Mr Davies, gweinidog Efail Isaf, yn gorfod bod mewn man arall yn gweinyddu ar gladdedigaeth, ac felly, yn absennol o'r cyfarfod hwn.*

*Bwriedir cynnal cyfarfodydd o'r un natur ymlaen yn y dyfodol.*

*Bydd 12 o donau i'w dysgu erbyn y cyfarfod cyhoeddus gan obeithio y bydd ymdrech a chydweithrediad yn yr hen a'r ieuainc gyda'r mudiad hwn, er gwella caniadaeth y cysegr."*

\*\*\*

A dyma erthygl sy'n rhoi awgrym o'r hyn oedd yn cael ei gynnal yn y capel, yn rhannol er codi arian i dalu peth o'r ddyled oedd wedi codi yn sgil yr adeiladu o'r newydd. Sylwer ar y disgrifiad o'r "capel prydferth, eang" ac hefyd y sylw bod "eglwys a chynulleidfa Bethlehem yn cynyddu yn ddirfawr, a gobaith cryf am ddyfodol llewyrchus".

(parhad ar y dudalen nesaf)

## Pori drwy hen bapurau (Parhad)

Rhodri-Gwynn Jones

### O'r "Tyst a'r Dydd" 5 Rhagfyr 1873

#### "Bethlehem, Pentyrch

Traddodwyd ddarlith yn y capel uchod nos Sadwrn diweddfaf, Tachwedd 29ain, gan y Parch. W. Nicholson, Groes-wen.

Testun y ddarlith oedd "Hunan-orchfygiad".

Cymerwyd y gadair gan Mr L. Thomas, Ty'n y wern, yr hwn a'i llanwodd yn anrhydeddus.

Cafwyd ddarlith rhagorol, yn deilwng o'r darlithydd – mewn gwirionedd, yn rhy dda i'w chanmol.

Yr oedd y capel prydferth, eang, yn orlawn gan wrandawyr a phe bai yr hin yn ddymunol, yn ddiameu y byddai y lle yn rhy fychan.

Yr oedd llwyr foddlonrwydd yn argraffedig ar bob wyneb.

Ar y diwedd, cafwyd anerchiadau gwresog gan Mr J Millward, Pentyrch a Mr J B Evans, student o Gaerdydd.

Bernir i'r elw oddiwrth y ddarlith fod tua £40.

Y mae eglwys a chynulleidfa Bethlehem yn cynyddu yn ddifawr, a gobaith cryf am ddyfodol llewyrchus.

Bydded i Dduw y nefoedd aros yn eu plith a gwlawio arnynt ei fendithion grasol, a hir oes llwyddianus i'r darlithydd, yw'n dymuniad."

\*\*\*

Ac yn olaf stori nad oed ganddi ddim i'w wneud a Bethlehem (diolch byth), er bod yna Barchedig ŵr (Bedyddiwr nid Annibynnwr!) yn rhan o'r stori! [Hoffaf yn fawr yr awgrym gynnill a gyflëir ym mrawddeg olaf yr adroddiad!]

### O'r "Tyst a'r Dydd" 6 Mehefin 1873 - "Golygfa Echrydus

Nos Sadwrn diwethaf, cyfarfyddodd cerbydwr o Gaerdydd, o'r enw Joseph Leonard, a'i ddiwedd mewn modd truenus anghyffredin tra yn gyrru cerbyd i Lanishen.

Ymddengys fod y Parch David Francis Ellis, gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr yn Llysaen, wedi cyflogi y trancedig tua chwech o'r gloch yng Nghaerdydd i'w gymeryd i Lanishen mewn cerbyd, ac iddynt alw mewn amryw dafarndai ar y ffordd, a chael diodydd meddwol.

Tua hanner awr wedi wyth, canfyddwyd y cerbydwr gan forwyn Mr Wride, Blue House Farm, ar y llawr yn farw gerllaw y cerbyd, a hysbysodd ei meist'r o'r amgylchiad, yr hwn a aeth i'r fan yn uniongyrchol, a chafodd y gwr Parchedig yn cysgu yn drwm yn y cerbyd, yn hollol wybodol o'r amgylchiad torcalonus oedd wedi digwydd, a chyda chryn lawer o anhawsdra y llwyddwyd i'w gael allan o'r cerbyd.

Oddiwrth y dystiolaeth a roddwyd yn y trengholid ymddengys mai torri ei wddf a wnaeth y cerbydwr trwy gwmpo i'r llawr.

Gadawodd wraig a phedwar o blant i alaru eu colled ar ei ôl.

Mynegodd y wraig nad oedd yn feddw pan yn myned allan ar ôl te."

## AGORIAD BETHLEHEM, PENTYRCH.

Mae y Bethlehem hwn wedi ei adeiladu mewn man hyfryd iawn—llawer gwell man na'r un y safai yr hen gapel arno. Lluch, baw, a sŵn peirianau oedd oddiamgylch yr hen gapel, ond ood prydferth, a sŵn adar y nefoedd yn canu oddirhwng eu cangau sydd yn amgylchysau y newydd. Capel trymaidd ac anghyfleus oedd yr hen, ond capel ysgafu a gwir gyfleus yw y newydd. Adeiladwyd yr hen gapel fwy na deugain mlynedd yn ôl, a chafodd ei helaethu ddwy waith. Bu pump o weinidogion yn yr hen gapel—Mri. Jones, Taibirion, J. Lewis, J. Davies, L. Smith, a'r diweddar Mr. Jones; ond erbyn fod yr eglwys yn symud i'w chapel newydd hardd, nid oes ganddi yr un gweinidog. Mawr oedd llawenydd Mr. Jones pan gufwyd y tir at adeiladu y capel hwn, ond ni chafodd y frainc o weled carreg ar gareg o hono wedi'r cwbl. Tŷ cul, tywyll sydd ganddo ef, pan mae'r eglwys yn addoli yn y tŷ prydferth hwn. Ond dyna, dim ond ei gorff sydd yn y bedd; mae ei enaid mewn gwell tŷ o lawer na'r tŷ newydd hwn, erystal ydyw. Nid oes ond rhyw bedwar yn fyw heddyw o'r rhai a ddechreuwyd yr achos yn Pentyrch, sef J. Russell, George Pike, Thomas Powell, a'r Parch. W. Russell, Tongwylas. Cangen ydoedd yr eglwys hon i ddechreu o'r Taibirion, ac yr oedd yn dda genym weled gweinidog y fam-eglwys yn parhau i fod yn gefnogaeth i'r ferch. Mae Mr. Davies wedi bod yn flaenllaw gyda'r capel newydd o'r dechreu, ac ete oedi yn trefnu cyfarfodydd yr agoriad, ac un iawn yw at beth felly, yn enwedig i ddyweyd am gasgliad; ond, am hyny, un iawn yw ef am bob peth a gymero mewn llaw. Cymerodd yr agoriad le dydd Sabboth a Llun, y luf a'r 2il cyffisol. Pregelthwyd dair gwaith y Sabboth gan y Parch. J. Thomas, Bryn, Llanelli; a J. B. Jones, B.A., Penybont-ar-ogwy. Boreu Llun, am 7, cafwyd cyfarfod gweddi i geisio bendith y nef ar y cyfarfodydd. Am 10, dechreuwyd gan y Parch. J. Thomas, Trosinaw; a phregelthwyd gan y Parch. B. Williams, Canaan (yn Seisonig); a W. Nicholson, Groeswen. Am 2, dechreuwyd gan Mr. M. Morgan, Pontypridd; a phregelthwyd gan y Parch. T. L. Jones, Machen; a B. Williams. Am 6, dechreuwyd gan Mr. J. Nicholson, Caerdydd; a phregelthwyd y Parch. B. Williams a W. Nicholson. Yr oedd y cynulliadau yn anarferol o fawrion trwy y dydd, a'r awel ddwyfol yn esmwyth chwythu trwy bob peth, nes ei gwneyd yn hyfryd iawn i fod yn bresenol. Cynllunydd y capel newydd oedd un W. Evans, Eglwys Newydd, a'r adeiladydd oedd Mr. Williams, Bronllyn Villa, ac yn wir, mae'r gwaith yn anrhydedd i Mr. Williams. Gwyddom o'r blaen fod Mr. Williams yn weithiwr cryf a da, ond ni ddallais o'r blaen ei fod yn meddu ar gystal taste. Yr oeddwn yn rhyu clywed fod capel mor rhagorol wedi ei adeiladu mor rhad, yn enwedig wrth ystyried y pris sydd ar bob peth yn awr. Costiodd y cwbl, £847 6s. 10c. Casglwyd cyn, ac yn yr agoriad, £271 14 11½c, ac felly mae yn aros, £575 11s. 1½c, ond beth yw hyny rhwng cynifer? Dangosodd cyfeillion Pentyrch a Gwaled-y-garth garedigrwydd neilluol fel arfer. Nid wyf yn cofio gweld gwell ddiarladau ar gyfer unrhyw gyfarfod erioed. Arosed y gogoniant gyda'r eglwys barchus yn y Bethlehem newydd, a llawer o bechaduriaid gaffe deimlo'r northoedd dwyfol yn y babell hardd hon.

J. M.

Tydi o'n rhyfedd sut mae geiriau yn mynd yn angof, ond yn sydyn yn dod yn ffasiynol unwaith eto? "Furlough", dyna'r gair dwi'n meddwl amdano. Mae cyfnod clo Covid 19 wedi gwthio "ffyrlo" i eirfa bron pob un ohonon ni. Y Canghellor ail gyflwynodd y gair i mi nol yn yr Hydref pan lansiodd y Llywodraeth y cynllun cymorth ariannol i gyflogwyr a chwmnïau. A bellach mae'r "ffyrlo" wedi ei ymestyn wrth i don arall o'r feirws greu arhefn yn maes cyflogaeth cwmnïau ac unigolion. Ystyr y gair, yn nol Bruce ydi "seibiant" neu "mynd ar gennad". Mae Geiriadur Prifysgol Caergrawnt yn dweud mai "leave of absence, especially granted to a member of the services or a missionary" ydi ffyrlo. Fe gododd fy niddordeb yn y gair wedi i mi ddarganfod "furlough" mewn llyfryn bach yn llawysgrif fy nhad. Cofnod o benwythnos yn Llundain ydi'r ddogfen, fy ymweliad cynta a'r ddinas ar lannau afon Tafwys. Roeddwn i newydd basio yr arholiad "11 plus" ac mae'n rhaid bod fy rhieni yn meddwl bod angen dathlu y fath orchest, ac mai trip i Lundain oedd y gydnabyddiaeth honno. Roedd fy nhad yn mynd i bregethu yn achlysurol, i un neu fwy o gapeli Cymraeg Llundain, ac ar y penwythnos arbennig hwn, yng nghapel Leytonstone oedd oedfa y bore, a Charing Cross yn yr hwyr. Ond y prif reswm oedd croesawu fy modryb Margaret yn nol o'r India, lle oedd hi yn genhades yn Shillong. Mae y llyfryn bach yn dweud ein bod ill dau ar y pawns Sul wedi teithio i "Tilbury docks i groesawu Margaret nol ar ddechreu ei chyfnod furlough" Tri mis o wyliau nol adre, wedi pum mlynedd o genhadu fel Matron yn ysbyty yr "hen gorff" ar fryniau Khasia. Mae fy nhad yn nodi bod y fordaith or is gyfandir wedi cymryd chwe wythnos. Y cwbl dwi'n gofio am y pawns hwnnw oedd prysurdeb y dociau. Cannoedd o weithwyr yn dadlwytho cargo, a finnau yn meddwl bod pawb yn parchu y Sul, drwy wneud dim gwaith. Nol yn Llansannan fyw i neb olchi dillad hyd yn oed ar y Saboth. Sussex Gardens oedd lle o ni yn aros, y tro cynta erioed i mi gysgu ffwrdd o adre. Mae y llyfryn yn gofnod or penwythnos, or Sadwrn i fore Mawrth. Yn fuan wedi ni gyrraedd ar y trê'n o Rhyl, fe "aethon ni i brynu llestri Pyrex" i mam ac yna ymlaen i "10 Downing Street, a thynnu llun o Arwel yn sefyll wrth y drws du". Bore Sul, fe adawon ni y gwesty a theithio ar y "tube" a llwyddo i fynd y ffordd anghywir ar y gwasanaeth dan ddaear "gan gyrraedd yn hwyr i'r oedfa"! Wedi dathliadau y glanio yn Tilbury, mynd i'r "West End a chapel Charing Cross. Cynulleidfa dda. Siaradodd Margaret ychydig o eiriau am ei gwaith yn y maes cenhadol. Gwely cynnar" Un peth dwi'n gofio am fore Llun, oedd ymweliad y tri ohonom a Madame Tussauds, a 'nhad yn gofyn i mi fynd i ofyn faint oedd hi o'r gloch gan filwr oedd yn sefyll yn stond ar y grisiau. Fe gymerodd hi dipyn o amser i mi sylweddoli mai un o fodolau mud Tussauds oedd y sowldiwr. "Excuse me sir, what is the time" ydi cofnod fy nhad gyda rhes o exclamation marks!. Dwi'n cofio gwisgo darn o bapur gyda cortyn rownd yr arddwrn yn dweud pwy o ni a chyfeiriad y gwesty o ni yn aros ynddo, rhag ofn i mi fynd ar goll yn y ddinas fawr. Mae cofnod fy nhad or hyn ddigwyddodd ar y pawns Llun yn fyr ac yn gryno "Ffrainc" Dyna'r cwbl. Beth mae hyn yn olygu ydi bod fy nhad yn llawn embaras am beth ddigwyddodd. Penderfynodd fy modryb Margaret aros yn y B&B tra bo ni ill dau am fynd i'r pictiwrs neu gwell fyth sioe fyw. Talu wrth ddrws rhyw theatr a dringo i'r "gods" sef y seti rhata' ac aros i'r llenni godi. Y miwsig ar y dechrau yn ddieithr i un oedd wedi arfer gwrando ar yr "home service ar y wireless" ac er bod seren y sioe yn adnabyddus i rhai yn y gynulleidfa, doedd gan y ddau ohonom ddim syniad pwy oedd o, na beth oedd o yn ddweud. Maurice Chevalier oedd y perfformiwr. Dwy awr o Ffrangeg heb un gair o Saesneg. Dim rhyfedd bod fy nhad wedi sgwennu "Ffrainc" fel cod am beth ddigwyddodd.

Mae esboniad y geiriaduron or gair "furlough" wedi newid dros y blynyddoedd, a bellach mae'r cyfryngau wedi llwyr anghofio am y cysylltiad cenhadol gwreiddiol. Ond i fy chwaer a minnau mae y gair "furlough" yn ein hatgoffa bod disgwyl, bob pum mlynedd, i ni wisgo fel plant o India a dilyn ein modryb o gwmpas capeli Gogledd Cymru yn canu yn un o ieithoedd India tra yn gwisgo saris lliwgar, ac yn smalio ein bod yn casglu deilen de neu yn plannu reis, tra bydda ein Anti Margaret yn sôn am ei phrofiadau yn India bell.

Tydi o'n rhyfedd sut mae geiriau yn mynd yn angof, ac yna yn sydyn yn dod yn ffasiynol unwaith eto?

## **DYDDIAD CAU**

### **I'R RHIFYN NESAF**

**Ebrill 14**

(Ysgrifennwch air neu ddau a'i anfon at Ifan Roberts:

**tycnau@aol.com**

Gan fod y dosbarth Cadw'n Heini wedi gorfod rhoi'r gorau iddi ers cyn y Nadolig rydw i wedi ceisio cadw lefel o ffitrwydd trwy fynd i gerdded rhyw ddwy/dair milltir bob dydd. Ryde ni mor ffodus fod amrywiaeth o lwybrau yn gyfleus. Weithiau fe fydda i'n cerdded efo glan afon Taf; weithiau'r gamlas; weithiau o gwmpas Parc Hailey. Dro arall, dilyn fy nhrwyn y bydda i am y pentre neu 'rownd y bloc'. Yn gwmni, mae seiclwyr, mamau neu dadau yn gwthio pram, teuluoedd yn mwynhau'r olygfa ... a pherchnogion yn mynd â'u cŵn am dro.

Un o'm gwendidau yw na fedra i ddim peidio â chyfarch ci. "Helo ci mawr", waeth beth fo'i faint. Roedd gennon ni gi pan oeddwn i'n blentyn. Sbaniel oedd 'Jock'; *springer spaniel*. Fe'i cafwyd yn anrheg gan un o fyddigions Llanbryn-mair; neb llai na'r Barnwr Syr Wintringham Norton Stable, Barnwr yn yr Uchel Lys. Roedd y Barnwr hefyd yn fridiwr sbaniels ac un tro fe roddodd gi bach i'r ficer ac un arall i Weinidog yr Annibynwyr, sef fy nhad.

Fe allwch chi ymserchu mewn anifail anwes. Llanc ar ddiwedd ei gyfnod yn yr ysgol gynradd oeddwn i pan gyrhaeddodd Jock. Myfyriwr ym Mangor oeddwn i pan ddaeth llythyr o adre un bore ac ynddo'r newyddion trist fod Jock wedi ei roi i gysgu. Dyna beth oedd torcalon. Ac mae'r hiraeth yn dal yno. Cofio'r hwyl a gaem wrth hela cwningod hyd ffriddoedd a choedwigoedd a chaeau'r



ardal. Cofio'r croeso a gawn ganddo wrth ddychwelyd adre o'r coleg. Ci ffeind, ffyddlon iawn oedd Jock.

Ac wrth gerdded y llwybrau o gwmpas Yr Eglwys Newydd, a gweld yn ddyddiol y cŵn ar dennyn yn dod i'm cyfarfod, daeth awydd am gael ci yn gwmni. Ond pa frîd o gi? Dyma ddechrau chwilio am gyngor.

Nid Chihuahua na Shar-pei (sut gi bynnag yw hwnnw). Nid Siberian Husky na Phit Bull Terrier chwaith. Awgrymir Cockapoo neu Maltese Shih Tzu. Dim diolch. Aussiedoodle?. *G'day* i hwnnw hefyd.

Ond rhoswch funud. Pan aeth Rhiannon a minnau am dro'n ddiweddar i gerdded gyda glan Nant Lleucu yng Ngerddi Waterloo roedd y cŵn i gyd wedi eu dilladu mewn '*doggie cold weather garments*'. Roedd un mewn *dog hoodie*; un arall mewn *super soft dog socks*. Pob un mewn *denim vest* neu *puppy jacket*. Ac nid unrhyw hen goler oedd am eu gyddfau ond *padded custom engraved dog collar*.

Ys dywed Parry-Williams "rwy'n dechrau simsanu braidd." Ci defaid amdani. Wedi'r cyfan, cerdd i'r 'Bugail da' a ganodd Rhys Dafis pan oeddwn i'n ymddeol. Ci defaid. Jyst y peth ... nes i mi ddarllen am y bridiwr o Geredigion a werthodd gi defaid yn ddiweddar am £27,000.

Mae llawer i'w ddweud am "rodio'i heddwch wrthyf hun neu gydag enaid hoff cytûn." Dwi'n mynd am dro.

Diwedd mis Awst oedd hi ac yn fore Gwener pan benderfynais gerdded i'r llyfrgell i ddychwelyd rhyw ddau neu dri o lyfrau. Pryd hynny roedd Llyfrgell Pen-y-bont yn dal yn yr hen adeilad Carnegie yng nghanol y dref, felly dwy'n meddwl mai 2013 oedd hi gan y symudwyd yr holl lyfrau yn fuan wedi hynny i'r cartref newydd yn y Ganolfan Chwaraeon.

Roeddwn wedi penderfynu peidio â benthg dim yr wythnos honno gan fod gen i sawl cyfrol ar y gweill a'm mwriad oedd rhoi'r llyfrau oedd yn fy mag ar y cownter heb oedi dim er mwyn parhau â'm negeseuon eraill. Ond, heb unrhyw reswm arbennig dros wneud, newidiais fy meddwl a phenderfynu cael cip ar y silffoedd lle cedwid llyfrau a ddychwelwyd gan ddarllenwyr. Gan bod rhywbeth yno at fy nant dychwelais at y ddesg ac aros i un o'r llyfrgellwyr roi stamp dyddiad ar fy newis lyfr.

Sylwais bod 'na bobl yn sefyll yn ymyl y ddesg a merched y llyfrgell yn brysur yn chwilio am rywbeth ar sgriniau'u cyfrifiaduron. Doedd dim brys a finnu'n aros yn amyneddgar pan gyhoeddodd un o'r llyfrgellwyr ei bod wedi darganfod yr hyn oedd arni ei heisiau, bod angen mynd i tabernacl.org neu rhywbeth tebyg. Roedd y pedwar dieithryn wrth y ddesg wrth eu bodd a finnu'n methu peidio â holi pam bod ganddyn nhw ddiddordeb yng nghapel y Tabernacl. Trodd y gŵr agosaf ataf ac esbonio bod ewythr ei wraig wedi bod yn weinidog ar y capel am flynyddoedd a'u bod wedi teithio o Ganada ar fath o bererindod hanes teulu.

Pryd hynny sylwais bod ganddyn nhw lyfrau hanes Pen-y-bont mewn lluniau yn eu dwylo a bod un o'r llyfrgellwyr yn estyn *Hanes y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr 1950-2010* iddyn nhw gael ei weld.

Wedi holi, ces ar ddeall bod y pedwar yn aros yng Nghaerdydd, wedi cyrraedd Pen-y-bont y bore hwnnw ac, yn ffodus dros ben, wedi digwydd taro ar un o'r trigolion oedd yn gwybod ble'n union oedd safle'r capel yn Stryd Adare, adeilad a ddymchwelwyd yn 1986. Cynigiais ddangos yr adeilad newydd yn Heol y Dderwen iddyn nhw gan eu sicrhau o groeso cynnes dros ben pe baen nhw'n gallu mynychu'r gwasanaeth fore Sul. Ond eu bwriad oedd cyrraedd Maesteg y prynhawn hwnnw, eto i ddilyn hanes teuluol, ac anelu am Ogledd Cymru fore trannoeth.

Mr a Mrs Prince oedd y ddau bum yn siarad â nhw er mai eu ffrindiau oedd wedi cynllunio'r daith. Dafydd Bowen oedd enw tad Mrs Prince, brodor o'r Garnant a brawd y Parchg J Cyril Bowen, gweinidog y Tabernacl o 1944 hyd 1975, gŵr uchel iawn ei barch yn y dref, pregethwr o argyhoeddiad, bugail gofalus o'i braidd a oedd hefyd yn ymwybodol o rôl yr eglwys yn y gymuned. Roeddwn yn hoff iawn o Mr a Mrs Bowen, yn derbyn croeso cynnes iawn ar eu haelwyd yn Heol Merthyr Mawr ac, wedi iddyn nhw ymddeol, ym Mryntirion ac roedd yn bleser anghyffredin cael cwrdd ag aelodau o'r teulu.

Newidiodd Pen-y-bont llawer iawn yn ystod y deng mlynedd a thrigain ers sefydlu'r Parchg Cyril Bowen yn weinidog y Tabernacl, codwyd stadau mawr o dai ar y cyrion, cynyddodd y boblogaeth yn enfawr a bu cryn newid yn natur y gymdeithas. Y rhyfeddod oedd bod ei nith a'i gŵr wedi taro yn y lle cyntaf ar rywun a allai ddangos safle'r hen gapel iddyn nhw ac ar ben hwnna, mwy na chwarter canrif ers iddo farw, wedi cwrdd ag aelod o'r capel oedd yn cofio eu hewythr yn dda ac yn ei barchu'n fawr.

Braint oedd cael cwrdd â Dilys a Norman Prince a llwyddo i lenwi ambell fwllch yn hanes eu teulu.

### **NEWYDDION am ein haelodau**

- Rydyn ni'n cydymdeimlo â **Meurig Watts a'r teulu, Llandaf**. Collodd Meurig ei dad yn ddiweddar.
- Rydyn ni'n anfon cyfarchion penblwydd i'r canlynol – y ddau wedi cyrraedd yr un carreg filltir yn ddiweddar:
  - ❖ **Stella Jones, Yr Eglwys Newydd**
  - ❖ **Martin Huws, Ffynnon Taf**
- A thra'n bod ni'n cyfeirio at Ffynnon Taf, roedd Golwg yn rhoi sylw i waith Carys Huws, merch Nest a Martin, ac un o bobl ifanc Bethlehem a chyn ddisgybl Ysgol Gyfun Plasmawr. Mae Carys bellach yn gweithio yn ninas Berlin ac yn ffotograffydd llwyddiannus sydd wedi gweithio gydag enwogion rhyngwladol.

Wrth feddwl am y Pasg, beth sy'n cosi'r meddwl? Ei ystyr wrth gwrs, yna'r cymanfaoedd, a wye.

Ond cofiwch, hwn o'dd dechre'r Flwyddyn Newydd yng nghalendr y Rhufeinied, yn dechre 'da Mish Mawrth, sef blwyddyn o ddeg mish .Pan newitiwyd y calendr i'r Julian, ac yna'r Gregorian yn yr unfed- ganrif-ar-bymtheg, o achos bod y Julian wedi'i selio ar y lleuad, a'r Gregorian ar yr haul a'r tymhorau, o'n nhw'n un-ar-ddeg diwrnod o fla'n amser. Felly, dyma ollwng yr un-ar-ddeg, ac fe a'th Chwefror yr ail yn Chwefror y trydydd-ar-ddeg dros nos. Nawr, chi 'di meddwl erio'd pam fod y Flwyddyn Dreth yn mynd o Eprill i Eprill? Wel, o achos y calendr Rhufeinig ma' hwnnw, o nhw yn talu trethu ym mish Mawrth, ond yn 1750, pan droion ni at y calendr Gregoraidd, o'dd lot o wrthwynepu achos bod y bobol yn talu treth am flwyddyn, (tua Mawrth y pumed-ar-hugen), ac yn eu tyb nhw o'dd un-ar-ddeg diwrnod arall i fynd cyn diwedd blwyddyn, wetyn, symudwyd y dyddiad i Eprill y pumed, sef, o gwmpas y Pasg, ac yno ma'fe byth!!

Nawrte – "WYE". Yn yr hen amser, wye iawn a ddefnyddid, o'dd hi'n arferiad roi nhw i'r gweision a'r morynion ar y ffarm. Wetyn, o'dd y clochyd yn mynd rownd a basged 'da fe i'w clasgu, dyna o'dd ei dâl am ofalu am y fynwent. Ma hanes am Edward y 1af yn lliwo pum cant o wye'n aur, a'u rhoi nhw i bob un o'i weision ar Sul y Pasg. O'n i mewn eclw's yn Awstria un Sul y Pasg, a'r plant yn cario basgeti o wye wedi lliwo at yr allor, ac yna'n siten, dyma gorws yr Haleliwia yn atseinio drwy'r lle, o'dd côr lan ar y galeri tu ôl i ni, nhw'n canu, a'r eira dishgyn tu fa's, gwefreddiol!

Un enw sy'n gysylltietig a wye yw Faberge. Wel pwy o'dd hwnnw pan o'dd e gatre?

Gemydd Rwsieg o'dd e, wedi'i eni yn 1846 yn St. Petersburg. O'dd arferiad 'da fe i fynd i Amgueddfa'r Hermitage, o'dd yn ran o'r Winter Palace, sef palas y Tsar, a rownd y gornel o'u siop eme fe, o'dd e'n mynd yno i astudio'r game.

Bu arddangosfa ym Moscow yn 1882. Un o'r darnau o'dd Faberge yn arddangos o'dd copi o freichled o'r bedwaredd ganrif cyn Crist o'dd yn yr Hermitage. Gwelodd y Tsar hwn, a gweud bod e'n ffili gweld y gwa'nieth rhwng y ddou, fel canlyniad, gas Faberge y teitl, "Goldsmith by Royal Appointment", a ma'r rest yn hanes fel y dywetir.

Rhwng 1885 a 1917, fe wnaethpwyd hanner cant o wye addurnietig gan Faberge a'i gwmni, a syrpreis ymhob un, y rhai mwya' enwog i wragedd y Tsars bob Pasg, ac 'roedd bwriad i neud dou arall yn 1918, ond amharodd y Chwyldro ar hyn. Dyma rhestr o enghreifftie:-

Yr un cynta' o'dd Wy yr Iâr, yn aur pur, yna tu fewn, melynwy aur, tu fewn wetyn iâr fach aur yna tu fewn 'to, coron fach i'w roi ar tshaen. Ar hyd y blynydde cafodd sawl un o'r syrpreisys eu dwyn, dicon bach i'w roi mewn poced!

Wy y Paun—paun tu fewn iddo, ac o droi 'da allweth fach bydde cwt y paun yn acor yn urddasol.

Wy y Palasau—deuddeg palas yn llunie bach yw'r syrpreis 'ma, ac yn acor mas fel consyrtina.

Wy y Trellis Deiamwnt—a thu fewn, eliffant ifori, ag allwe 'to i'w windo fe lan, a fydde fe'n cered o gwmpas.

Wy Lili'r Dyffryn—fy ffefryn i. Wrth bwysu bwtwn ar ei ochor, bydde llunie o'r teulu brenhinol yn popo lan ar y top! UN arall te,

Wy y Dadeni---gopiodd e hwn ar ôl gweld casget mewn amgueddfa yn yr Almaen, gwerthwyd hwn am beder miliwn ar hugen!

Yn ystod y Chwyldro Rwsieg, meddiannwyd nhw i gyd, ac yna, aethant i ddwylo Stalin. Nawr, ma' nhw mewn amgueddfeydd ne' ddwylo preifat.



OND! Yn 2012, gwelodd gwerthwr scrap wy aur ar gownter bric a brac, o'dd e ddim yn gwpod beth o'dd e, ond bod e'n werthfawr, felly, talodd wyth mil amdano, a diwedd y gwt o'dd iddo ddarganfod taw un o'r rhai Faberge coll o'dd e, a phrynwyd e oddi wrtho fe am ucen milliwn!

Defnyddiwyd un o'r wye ma yn Octopussy, ffilm James Bond - y "Coronation Egg"

Wetes i bod rhai nawr mewn casgliate preifat, a - chi'n barod am hyn? Ma' un yn y nheulu i! A, na, 'w i ddim yn jôcan. Enw hwn yw - Wy y Dduges Marlborough, a mae e'n byw ym Mhalas Blenheim, wel, y Dduges Marlborough bresennol yw merch y nghyfnither! Ond stori arall ramantus yw honno.

Ond pan welwch chi fi nesa cofiwch foesyngrymu"! Pasg Hapus i chi gyd.

Wrth wyllo rhaglen Huw Stephens ar hanes celf yng Nghymru, ces fy atgoffa o ymweliad a wnaeth Ifan a minnau â Bruges ychydig o flynyddoedd yn ôl. Roedden ni'n ymwybodol bod arddangosfa o waith yr artist a'r arlunydd Frank Brangwyn yno. Wrth gwrs, roeddwn i a phawb yn fy ardal enedigol yn gyfarwydd â'r enw Brangwyn sef yr enw ar y neuadd gyngerdd fawreddog yn Abertawe a'i furluniau mawr enwog. O fynychu cyngherddau a pherfformiadau yno,



byddai sylw pawb yn cael ei dynnu at y paneli trawiadol, lliwgar anferth hyn ar y muriau. Ond efallai na fyddai pawb yn gwybod eu hanes a hanes yr un a'u paentiodd.

A'r syndod i ni oedd y sylw a roddwyd iddo yn Bruges, llawr cyfan yn yr Arenthuis yn llawn o'i hanes a hanes ei waith.

Beth oedd cysylltiad Syr Frank Brangwyn â Bruges? Cafodd ei eni yno yn 1867 i fam o Gymraes ac i artist o dad, William Curtis Brangwyn. Roedd ei fam yn dod o Aberhonddu a'i dad yn Sais ond ei deulu yntau yn hanu o Gymru. Felly roedd y tair gwlad yn bwysig iddo.

Yn 15 oed daeth o dan ddylanwad William Morris lle bu'n brentis ddrafftsmon ifanc yn ei fusnes yn Llundain. Dechreuodd ei yrfa yn Llundain yn cynllunio adeiladau crefyddol. Roedd yn artist amryddawn yn gweithio mewn aml gyfryngau ac yn gallu troi ei law at unrhywbeth; cynllunio ffenestri lliw a gwaith serameg, yn ysgythrwr, yn ddylunydd coed a chelfi, yn lithograffydd ac yn arlunydd toreithiog.



**Frank Brangwyn:  
Un o baneli Bruges**

Dechreuodd ei ddiddordeb mewn paentio murluniau yn 1895 pan ofynnwyd iddo gan Siegrid Bing gwerthwr lluniau, beintio murlun ar waliau allanol Maison de L'Art Nouveau ym Mharis ac yna gweithiodd ar baneli mawr Neuadd Skinners yn



**Frank Brangwyn:  
Un arall o baneli Bruges**

Llundain rhwng 1904 ac 1909. Ac ar ôl hynny daeth i enwogrwydd yn y maes gan weithio i gwmnïau mawr ac i lywodraethau o gwmpas y byd.

Ond i fynd yn ôl at y paneli yn Neuadd Brangwyn – Paneli'r Ymerodraeth Brydeinig.

Roedd angen addurno waliau Neuadd San Steffan yn Llundain ar ôl i dân bron â'i dinistrio'n llwyr. Yn 1924 penderfynodd Iarll Iveagh gomisiynu Frank Brangwyn i baentio paneli ar gyfer waliau eang yr Oriel Frenhinol i goffáu'r milwyr a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bwriad Brangwyn oedd goleuo'r Oriel dywyll gyda lluniau lliwgar yn cynrychioli rhannau o'r Ymerodraeth Brydeinig. Ond doedd ei weledigaeth ddim yn gymeradwy gan bawb a chafwyd cryn anghytuno a dadlau, rhai'n dadlau eu bod yn rhy lliwgar a bywiog a beiddgar ac fe wrthodwyd y paneli.

Yn hytrach yn 1934, gosodwyd y 17 panel unigryw a gymerodd 7 mlynedd i'w cwblhau mewn neuadd newydd yn Abertawe ond bu rhaid codi to'r adeilad i 13.4 o fetrau yn uwch i'w letya.

A dyna sut daeth Neuadd yn Abertawe i fod yn gartref gweithiau addurniadol gan artist sydd o bwys a diddordeb rhyngwladol.



**Un o baneli Neuadd Brangwyn, Abertawe**

Ydy' hwnna'n gôd post, neu 'zip code' cyfarwydd i chi? Er ei fod yn un o'r zip codes mwyaf adnabyddus yn y byd, doedd o ddim i mi chwaith, nes i mi ddigwydd cyfarfod â merch ifanc hynod ddiddorol wrth weithio fel 'conductor bws' yn ystod haf 1973. Na, nid Angharad, roeddwn eisoes wedi cwrdd â hi yn y coleg yng Nghaerdydd ar ddechrau 1972, ac wedi gwirioni fy mhen. Bryniau Meirion LL23, nid Beverly Hills 90210 oedd milltir sgwâr fy narpar wraig.

Gweithio shifft hwyr oeddwn i, myfyriwr ugain oed yn ceisio hel mymryn o gelc ar gyfer dychwelyd i Gaerdydd i gychwyn ar fy nhrydedd flwyddyn fel cyw pensaer. Wedi cael llond bol o'r ymwelwyr yn ystod y daith tair awr o Sgwâr Caernarfon, via Bangor, Conwy, Llandudno a Towyn, i dref brysus a lliwgar y Rhyl. Panad cyflym hefo'r dreifar fannu cyn iddo droi'r bws am adref a minnau'n barod am daith gymharol dawel ar fws ola'r dydd.



Erbyn cyrraedd Penmaenmawr, a hithau'n dechrau tywyllu, roedd 'kiss me quicks' y Rhyl i gyd wedi diflannu a dim ond 'Flying Flynn' y gyrrwr gwyllt ac mi oedd ar y bws. Ac mi roedd o yn ei gab yn cadw llygad barcud ar y ffordd. Tawelwch o'r diwedd!

Ond parhaodd hynny ddim yn hir.

Wrth fynd trwy bentref Llanfairfechan stopiodd y bws i godi teithiwr unig. Merch ifanc oedd hi, gwallt hir, pac go drwm ar ei chefn a cherddediad braidd yn gloff. "Nebo, please" medda hi, mewn acen Americanaidd. "Nebo?" medda fi, yn fy Susnag gora'. Gan wybod fod Nebo ddeg milltir i'r de o Gaernarfon. "Sorry, but this bus only goes as far as the depot in Caernarfon, and there are no other buses running tonight". Gofynnais iddi beth yn y byd oedd hi'n wneud yn anelu am Nebo. I mi fel 'townie' roedd fannu ymhen draw byd. Gobeithio cael aros yn y 'Green Caravan' oedd hi, ble bynnag oedd honno. "Can you help me?"

Heddiw, mi fasa rhywun yn meddwl yn syth "a'i sgamio mae hon?". Ond roedda nhw'n ddyddiau diniwed, braf bryd hynny. Eglurais fasa raid iddi aros amdana i yn y depot am tua hanner awr er mwyn i mi orffen cyfri'r arian a thalu mewn, ac yna mi faswn yn mynd a hi draw i Nebo yn hen Hillman Super Minx Estate fy nhad.

Mae'r daith o Lanfairfechan i Gaernarfon yn cymryd o leiaf dri chwarter awr ar fws, hyd yn oed hefo Flying Flynn yn gyrru. A gan na ddaeth prin neb arall ar y 'bws olaf' noson honno cawsom lonydd i sgwrsio. Merch o'r enw Renée Klein, ac fel mae'r cyfenw'n awgrymu, Iddewes oedd hi. Wedi ei magu yn Beverly Hills, California ac o ddeall yn ddiweddarach o gefndir ariannog iawn. Roedd wedi dioddef salwch hynod anghyffredin flwyddyn ynghynt, ac mi fu hi'n ffodus i ddod trwyddi. Ond mi roedd y salwch wedi ei gadael yn gloff. A phwrpas ei thaith ar draws Ewrop? Roedd am brofi i'w hunain ei bod yn gallu sefyll ar ei thraed ei hun, yn ffigurol ac yn llythrennol hynny yw.

Roedd bod mor agos at farwolaeth wedi dangos iddi beth oedd blaenoriaethau bywyd, ac wedi ei hysbrydoli i weithio dros eraill llai breiniol na hi. Clywais am ei hymweliadau cyson ag Angela Davis yng ngharchar California, am ei rhan yn y frwydr am hawliau sifil i'r duon ac am brotestiadau rhyfel Fietnam. A'r newyddion diweddaraf fod Nixon wedi gwrthod troi'r tapiau arlywyddol i Bwyllgor Watergate y Senedd. Digwyddiadau roedd pawb â theledu yn gyfarwydd â nhw, ond roedd cael newyddion o 'lygad y ffynnon' fel petai yn rhoi gwedd arall ar bethau.

Fel rhywun oedd llai na deufis ynghynt wedi derbyn gŵys i ymddangos o flaen Llys Ynadon Pwllheli am dorri mewn i dŷ haf yn Nefyn gyda chwech arall (fel rhan o ymgyrch Cymdeithas yr Iaith) cymerais innau'r cyfle i'w goleuo am ein hymdrechion i warchod ein cymunedau Cymreig oedd yn prysur ddiflannu.

Yn ogystal â materion politicaidd, soniodd Renée am ddylanwad cerddoriaeth gyfoes Americanaidd ar bobol ifanc y wlad. Falle mai fannu daniwyd fy niddordeb mewn cerddorion fel Paxton a Dylan. Pwy a wŷr.

Welodd hi ddim o'r garafán werdd na Nebo'r noson honno. Mynnodd fy rhieni fod yr Iddewes ifanc, hyderus a gwahanol iawn ei gwedd yn aros noson yn ein cartref. A gan mai dwy stafell wely yn unig oedd yn 'Rapa' Stryd Marcus, a'i bod am brofi ei hun, mynnodd gysgu ar lawr caled ein stafell fyw!

'r bore wedyn, cyn i mi ei hebrwng i Nebo i chwilio am y garafán werdd, mi es a hi lawr i siop recordiau Gray Thomas ger y castell a phrynu record fer cyntaf y grŵp poblogaidd 'Ac Eraill' fel cofnod o'i harhosiad, er mor fyr, a'n tref a chartref bach Cymreig ni.

Chwe wythnos yn ddiweddarach roedd Renée a record gyntaf Ac Eraill wedi mynd 'tua'r gorllewin' ac wedi cyrraedd Beverly Hills. A dyna'r tro olaf i mi ei gweld.

Fe gadwom mewn cysylltiad drwy lythyru'n achlysurol am rai blynyddoedd. Ac yn fwy diweddar, diolch i dechnoleg fodern, ail-gydiwyd yn y berthynas. Ac mi roeddwn yn falch iawn o ddeall nad 'tan siafins' byr hoedlog oedd ei hymrwymiad i'r pethau gorau ac i wella mymryn ar yr hen fyd yma. Wedi priodi bu'n gyfrifol am sefydlu ysgol ar gyfer plant ag anghenion arbennig, gweithiodd hefo pobol ifanc digartref mewn ardaloedd tlotaf Califfornia (oes mae rhai) ac mae'n dal i rannu ag eraill ei diddordeb angerddol am yr amgylchfyd. **(Ar y dde)** Dyma lun o Renée hefo'r anthropolegydd byd-enwog Jane Goodall.



Digwydd taro ar rywun ar fws nôl yn 1973. Cynnig lle i orffwys pen a hynny'n arwain at rannu profiadau oedd yn gyffredin ond eto mor wahanol. Y ddau ohonom o gefndiroedd hollol wahanol ond eto'n rhannu'r un anian.

Dwi'n dal fy ngafael yn dynn yn fy nghopi argraffiad cyntaf o 'Bury My Heart at Wounded Knee' ddaeth drwy'r post i 'Rapa' Stryd Marcus fel diolch am gael aros noson yn ein cartref nôl yn 1973. Ond, fel dwedodd Tom Paxton, ac mae'n bwysig iawn cofio - 'it's alright to look back, as long as you don't stare!' Felly dyna be wnai.

## ODLAU'R GARTH

Y tro hwn –telyneg gan Martin am ddiwedd Streic y Glowyr

### Urddas

*Y Maerdy, 1985*

Fe blethwn ein dwylo  
yn gadwyn o ddur.  
Goroesem ar friwsion,  
ein cegau yn sur.

Y clapio'n atseinio  
ar ymyl y ffordd.  
Ein siom dan yr wyneb  
yn drymach na gordd.

Baneri'n cyhwfan,  
ein harwyr yn fyw.  
Fe gamwn yn gefnsyth,  
encilio nid yw.

Mae'r adar yn trydar  
a gwawrio mae'r dydd.  
Disgynnwn i'r fagddu,  
glo mân yw ein ffydd.

**Martin Huws**